Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Strategaeth QAA: gwybodaeth bellach

## Sut mae QAA yn arloesi wrth helpu sefydliadau i ddangos tystiolaeth o ansawdd eu darpariaeth?



Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig lle mae polisi wedi esblygu'n gyflym a lle mae datblygiadau technolegol mewn deallusrwydd artiffisial a thechnoleg addysgol, ynghyd â dysgu ar-lein a dysgu cyfunol yn cynnig cyfleoedd newydd, tra hefyd yn cyflwyno heriau newydd cymhleth.

Bydd QAA yn cynorthwyo sefydliadau i ddangos darpariaeth o ansawdd uchel yn effeithiol, i randdeiliaid allanol ac yn fewnol. Mae hyn yn cynnwys:

- **Helpu prifysgolion a cholegau i addasu arferion addysgeg ac asesu mewn ymateb i ddatblygiadau newydd.**
- **Datblygu fframweithiau hunanwerthuso a dangosyddion ar gyfer cryfderau ac sy'n nodi dangosyddion her cyn iddynt ddod i'r amlwg mewn data cyhoeddus.**
- **Gweithredu penderfyniadau ar sail tystiolaeth, gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol.**
- **Sicrhau bod darparwyr yn gallu adnabod a chy leu ansawdd eu haddysgu, dysgu ac asesu a dangos ei fudd i fyfyrwyr a dysgwyr.**

# Strategaeth QAA: gwybodaeth bellach

## Sut mae QAA yn helpu enw da sefydliadau yn y DUac yn rhyngwladol?



Mae enw da rhyngwladol addysg uwch y DU yn hollbwysig i brifysgolion. Mae QAA yn ganolog i gynnal a gwella'r enw da hwnnw, drwy wneud y canlynol:

- Cynrychioli sector y DU yn rhyngwladol mewn ffordd unigryw, gan gynghori'n aml ar lefel system.
  Mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith y sefydliadau yr ydym yn partneru â hwy, megis y Cyngor Prydeinig, yn ogystal â gweithgareddau rhyngwladol cyrff eraill yn y sector addysg uwch yn y DU. Mae›n adlewyrchu enw da sector y DU ac yn helpu i›w hyrwyddo ymhellach.
- Cynnig gwasanaethau aelodaeth sy'n galluogi dealltwriaeth o ansawdd a safonau ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn hwyluso partneriaethau, cydnabyddiaeth a symudedd myfyrwyr a dysgwyr, graddedigion a staff.
- Adeiladu cymunedau ymarfer mewn sicrwydd a gwelliant ymhlith ein haelodau yn y DU ac yn rhyngwladol.
  Mae hyn yn cryfhau enw da'r sector ac yn helpu i hyrwyddo datblygiadau amlochrog a dwyochrog mewn ansawdd a safonau.

# Strategaeth QAA: gwybodaeth bellach

## Sut bydd QAA yn sicrhau gwerth i'w aelodau?




Rydym yn cynllunio ein gwasanaethau a'n gweithgareddau i ddarparu'r gwerth mwyaf posibl. Byddwn yn cynnig:

- **Gwasanaethau asesu sy'n cynorthwyo â chydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol neu safonau rhyngwladol, ac i rai, osgoi cost ar ffurf cosbau rheoleiddiol.**
- **Gwybodaeth ac arweiniad sy'n mynd i'r afael â materion byw mewn ffordd ymarferol, gan leihau'r posibilrwydd o ddyblygu gwaith.**
- **Cefnogaeth i'n haelodau i ddatblygu prosesau ansawdd perthnasol ac effeithlon sy›n rhyddhau capasiti.**
- **Cefnogaeth benodol drwy fecanweithiau adolygu ac ymgynghori ar gyfer gwella ansawdd wedi'i thargedu er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf yn sgil ymdrech ar ran sefydliadau.**
- **Gwell effeithlonrwydd i aelodau wrth i ni gynnull arbenigedd y sector i fynd i'r afael â materion cyfoes.**
- **Mecanweithiau effeithiol i hunanwerthuso drwy ddata, gwybodaeth reoli a mesurau ansoddol, i gynorthwyo â chynllunio strategol.**

Bydd QAA yn canolbwyntio ar ddatblygu ein pobl a›n diwylliant, ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo cynaladwyedd fel ffocws cynyddol bwysig. Rydym yn gweithredu mor effeithlon â phosibl,ac fel elusen rydym yn ail-fuddsoddi ein henillion mewn gwaith er budd y sector, myfyrwyr.

# Lle QAA ymhlith asiantaethau sector y DU

Mae'r diagram hwn wedi'i ddefnyddio ar gyfer trafodaeth gyda rhanddeiliaid QAA. Daw'r gweithgareddau a restrir ar gyfer yr asiantaethau eraill o'u strategaethau cyhoeddedig, ond ni fwriedir iddynt fod yn rhestrau cyflawn. Y croestoriadau a ddangosir yw'r rhai sy'n berthnasol i waith QAA, felly nid yw'r rhain ychwaith yn hollgynhwysfawr.

